# Gwerthusiad Canol Tymor o Strategaeth Tair Blynedd Ofcom ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau 2024-2027

**ADRODDIAD CRYNO**

**Mehefin 2026**

Jim Barratt
Bigger Picture Research

# Rhagair Ofcom

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o werthusiad annibynnol o Strategaeth tair blynedd Ofcom ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau. Gan ein bod hanner ffordd drwy weithredu'r strategaeth hon, mae'n werthusiad 'canol tymor'.

Cyhoeddwyd ein Strategaeth tair blynedd gyntaf ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau ym mis Hydref 2024. Mae'r Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau, sy'n cael ei darparu gan dîm llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom yn y rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, yn nodi tair colofn ganolog ei raglen: Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso; Ymgysylltu â phlatfformau; Pobl a Phartneriaethau. Mae'n disgrifio ein dull o gefnogi pobl ledled y DU i lywio cynnwys ar-lein a'r cyfryngau yn ddiogel, yn feirniadol ac yn hyderus, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer darparu a gwerthuso.

Mae gan Ofcom ddyletswyddau i hyrwyddo ac ymchwilio i lythrennedd yn y cyfryngau yn Neddf Cyfathrebiadau 2003. Mae hyn yn cynnwys dyletswyddau y mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn eu hegluro ymhellach ac yn ychwanegu manylion penodol atynt. O dan Bennod 8 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau ac adrodd yn flynyddol ar gyflawni ei swyddogaethau llythrennedd yn y cyfryngau. Mae gennym hefyd ddyletswyddau i asesu ein cynnydd at gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodir yn ein Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau. Rydym yn darparu crynodeb o'n gwaith bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol Ofcom, wedi'i ategu gan ein Cynllun Cyflawni Llythrennedd yn y Cyfryngau.

Roedd sawl rheswm dros gomisiynu'r gwerthusiad canol tymor annibynnol hwn o'n strategaeth tair blynedd. Yn gyntaf, mae gwerthuso yn elfen graidd o'n Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau. Mae'n cefnogi dealltwriaeth ehangach o'r hyn sy'n gweithio ac yn ein helpu i asesu effaith prosiectau ac ymyriadau a nodi bylchau yn y ddarpariaeth. Yn ail, byddwn yn defnyddio'r gwerthusiad hwn wrth i ni gyflawni ail gam y Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau i nodi meysydd a allai fod yn ddefnyddiol canolbwyntio arnynt neu eu haddasu - rhai rydym eisoes yn gweithredu arnynt. Bydd hefyd yn gyfraniad gwerthfawr at ein gwaith cynllunio ar gyfer ein strategaeth tair blynedd nesaf. Yn olaf, rydym wedi cysoni'r gwerthusiad hwn ag adroddiadau blynyddol Ofcom ac rydym o'r farn ei fod yn cyflawni ein rhwymedigaethau i adrodd yn flynyddol ar gyflawni ein swyddogaethau llythrennedd yn y cyfryngau.

Rydym yn cydnabod bod gwerthuso yn broses barhaus ac ailadroddus. Nid yw'n ymarfer pasio neu fethu. Yn hytrach, mae'n gofyn am asesu llwyddiannau a meysydd lle mae tystiolaeth o gynnydd wedi bod yn fwy cyfyngedig. Yn ei dro, mae hyn yn galluogi cymhwyso'r dysgu a gwneud gwelliannau. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn, ein nod yw cefnogi diwylliant dysgu Ofcom o ran gwerthuso'r ddarpariaeth llythrennedd yn y cyfryngau a datblygu gwersi y gellir eu rhannu ag eraill i wella effeithiolrwydd ymyriadau presennol ac yn y dyfodol.

Defnyddiodd y gwerthuswr a gomisiynwyd gan Ofcom dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn y gwerthusiad hwn, gan gynnwys 33 o gyfweliadau â rhanddeiliaid perthnasol, a dau arolwg a anfonwyd at ein Rhwydwaith o dros 700 o unigolion neu sefydliadau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai sydd wedi cyfrannu at y broses hon. Rydym yn parhau i annog pobl i ymgysylltu â ni drwy ein Rhwydwaith MSOM (Rhwydwaith Llythrennedd yn y Cyfryngau) a dulliau eraill: ein nod yw "gwneud llythrennedd yn y cyfryngau yn fusnes i bawb", ac er mwyn gwneud hyn rydym yn croesawu adborth a sylwadau i helpu i fireinio ein gwaith a'n strategaeth ar gyfer y dyfodol.

# Cynnwys

Rhagair Ofcom ........ 1
Cynnwys ........ 2
Gair am yr awdur ........ 2
Cydnabyddiaeth ........ 2
Crynodeb gweithredol ........ 3
Asesiad cyffredinol ........ 3
1. Cyflwyniad ........ 4
2. Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso ........ 7
3. Ymgysylltu â Phlatfformau ........ 12
4. Pobl a Phartneriaethau ........ 15
5. Casgliadau ac argymhellion ........ 20

## Gair am yr awdur

Ysgrifennwyd yr adroddiad cryno hwn gan Jim Barratt o Bigger Picture Research, cwmni ymgynghori sy'n darparu gwasanaethau gwerthuso ac ymchwil ers 2006.

Comisiynodd Ofcom Bigger Picture Research i ddylunio a chynnal y gwerthusiad canol tymor hwn o'r Strategaeth tair blynedd ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau. Cyn hynny, cafodd yr awdur gontract gan dîm llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom fel cynghorydd gwerthuso rhwng 2023 a 2024.

Mae'r holl asesiadau yn yr adroddiad hwn yn annibynnol ac yn cynrychioli barn y gwerthuswr ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth sydd ar gael, oni nodir yn wahanol.

## Cydnabyddiaeth

Hoffai'r gwerthuswr ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwil hon drwy roi o'u hamser a rhannu gwybodaeth ac adborth. Mae hyn yn cynnwys rhanddeiliaid a gytunodd i gael eu cyfweld, aelodau o Rwydwaith MSOM (Rhwydwaith Llythrennedd y Cyfryngau) a gwblhaodd arolygon, a staff a chontractwyr Ofcom a ddarparodd ddata ac a gymerodd ran mewn cyfarfodydd ôl-drafodaeth grŵp.

# Crynodeb gweithredol

*Cyhoeddodd Ofcom ei Strategaeth tair blynedd gyntaf ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau ym mis Hydref 2024, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth. Mae'r gwerthusiad canol tymor annibynnol hwn yn asesu cynnydd dros hanner cyntaf cyfnod y strategaeth (Hydref 2024 i Chwefror 2026), gan ddefnyddio cyfweliadau â rhanddeiliaid, tystiolaeth arolygon, myfyrdodau tîm Llythrennedd yn y Cyfryngau Ofcom, data monitro ac adolygu adroddiadau a gyhoeddwyd.*

## Asesiad cyffredinol

Mae'r gwerthusiad wedi canfod bod y gwaith o gyflawni Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau (y cyfeirir ati hefyd yn yr adroddiad hwn fel 'y strategaeth') ar y trywydd iawn yn gyffredinol a bod barn rhanddeiliaid am ddull gweithredu Ofcom yn gadarnhaol ar y cyfan. O ran y canlyniadau a nodir yn y strategaeth, mae'r gwerthusiad yn canfod bod perfformiad cryf mewn meysydd penodol fel adeiladu tystiolaeth drwy weithgarwch ymchwil a gwerthuso, ac wrth gynnull y sector mewn gwahanol ffyrdd.

Yn bwysig, mae'r rhan fwyaf o weithgarwch yn dal i fynd rhagddo, ac nid oes modd gweld y canlyniadau a fwriedir yn llawn eto. Felly, mae'r asesiad ar y cam hwn yn canolbwyntio ar y llwybr arfaethedig, yn hytrach na'r effaith derfynol.

| Ffrwd waith | Canlyniad | Crynodeb dangosol o asesiadau canol tymor |
|---|---|---|
| **Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso** | Defnydd cynyddol o dystiolaeth ymchwil Ofcom ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau polisi | **Cynnydd da** |
| | Gwell dealltwriaeth o lythrennedd yn y cyfryngau a ffordd well o fesur hynny | |
| | Dealltwriaeth ddyfnach o 'beth sy'n gweithio' o ran cyflawni ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau mewn sectorau perthnasol | **Rhywfaint o gynnydd da** |
| **Ymgysylltu â Phlatfformau** | Darparu gwell cymorth llythrennedd yn y cyfryngau gan lwyfannau a darlledwyr i ddefnyddwyr | **Tystiolaeth gyfyngedig o gynnydd ar y pwynt hwn** |
| | Mwy o werthuso o effeithiolrwydd y cymorth hwnnw i ddefnyddwyr | |
| | Mae mentrau llythrennedd yn y cyfryngau yn cael eu hariannu'n well yn y tymor hir | |
| **Pobl a Phartneriaethau** | Mae addysgwyr a gweithluoedd blaenoriaeth eraill mewn sefyllfa well i ddarparu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau | **Rhywfaint o gynnydd da** |
| | Mae mwy o bobl yn gallu cael gafael ar y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i lywio drwy gynnwys a ffynnu'n ddiogel ar-lein | |
| | Mae llythrennedd yn y cyfryngau yn fwy o flaenoriaeth i amrywiaeth ehangach o sefydliadau a sectorau | |

*'Cynnydd da' = Mae tystiolaeth o sawl ffynhonnell yn dangos bod y strategaeth yn gweithio fel y dylai yn y maes hwn a bod y canlyniad yn debygol o gael ei gyflawni dros oes y strategaeth.*
*'Rhywfaint o gynnydd da' = Mae tystiolaeth gredadwy o newid cadarnhaol, ond mae'r cynnydd yn rhannol neu ar gam cynnar.*
*'Tystiolaeth gyfyngedig o gynnydd' = Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth o'r newid arfaethedig. Efallai nad oes modd gweld canlyniadau eto ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, neu efallai nad yw cyfraniad Ofcom yn amlwg eto.*

Yn gyffredinol, mae hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn deillio o wahanol ffynonellau tystiolaeth fel ymdrech ar y cyd, gydag Ofcom yn chwarae rôl sbarduno a chydlynu allweddol. Mae rhanddeiliaid o'r farn bod swyddogaeth reoleiddio annibynnol Ofcom yn galluogi (yn sail i rôl cynnull Ofcom fel brocer gonest gyda dylanwad) ac yn cyfyngu (mae ganddo gysylltiadau sy'n ei rwymo'n gyfreithiol â'r gwasanaethau mae'n eu rheoleiddio). Daw'r adroddiad i ben gydag argymhellion i Ofcom eu hystyried yn rhan olaf cyfnod y strategaeth, gyda'r nod o wella'r

ddarpariaeth, mynd i'r afael â bylchau a chryfhau canlyniadau ar sail y dystiolaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn.

# 1. Cyflwyniad

*Cyhoeddodd Ofcom 'Gweledigaeth Gadarnhaol ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau' sef ei Strategaeth tair blynedd gyntaf ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau ym mis*

*Hydref 2024, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth. Mae'r strategaeth yn nodi sut mae Ofcom yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau llythrennedd yn y cyfryngau gyda gweithgarwch wedi'i drefnu mewn tair ffrwd waith ategol: Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso; Ymgysylltu â Phlatfformau; Pobl a Phartneriaethau.*

Mae'r gwerthusiad canol tymor hwn yn cofnodi'r cynnydd hyd yma ac yn nodi'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o gyfraniad Ofcom yng nghyd-destun datblygiadau ehangach. Mae'r cyfnod sy'n cael ei adolygu yn cynnwys gweithgarwch a gyflawnwyd rhwng mis Hydref 2024 a mis Chwefror 2026. Dan arweiniad fframwaith gwerthuso, ac wedi'i gefnogi gan dair lefel o gasglu a dadansoddi data, cynlluniwyd y gwerthusiad i fynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

| PROSES | EFFAITH | STRATEGAETH |
|---|---|---|
| Beth sy'n gweithio'n dda?<br>Ble gellir gwneud gwelliannau ac addasiadau? | Tystiolaeth gynnar o ganlyniadau (y pellter a deithiwyd hyd yma) | A yw'r tybiaethau sylfaenol yn seiliedig ar brofiad? |
| *Mae'n ddefnyddiol i Ofcom barhau i fireinio'r rhaglen tair blynedd o waith llythrennedd yn y cyfryngau wrth i'r rhaglen fynd rhagddo* | *Mae'n ddefnyddiol i ddatblygu sylfaen dystiolaeth Ofcom ar gyfer gwerthusiad cryno o'r effaith* | *Mae'n ddefnyddiol ar gyfer llywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau strategol Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau y tu hwnt i 2027* |

**Ffynonellau tystiolaeth**
Mae'r gwerthusiad yn defnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys tystiolaeth ansoddol gan sampl o 33 o randdeiliaid allweddol, wedi'i chasglu, ei dadansoddi a'i nodi'n systematig, ochr yn ochr â data allbwn meintiol, adroddiadau prosiect a gomisiynwyd a thystiolaeth arolwg.

| Ymchwil gynradd a gynhaliwyd gan y gwerthuswr | Ymchwil eilaidd a gynhaliwyd gan y gwerthuswr |
|---|---|
| • 33 o gyfweliadau â rhanddeiliaid, wedi'u cynnal yn ddienw i hyrwyddo ymgysylltu agored<br>• chwe chyfarfod grŵp gyda staff Ofcom a chontractwyr i lywio'r gwerthusiad o'r broses<br>• arolwg o aelodau'r Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, a gynhaliwyd mewn dwy don drwy holiadur ar-lein ym mis Ionawr 2025 (maint y sampl = 80) ac ym mis Ionawr 2026 (maint y sampl = 52) | Adolygiad o'r data a'r ffynonellau tystiolaeth presennol sydd gan y tîm Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, gan gynnwys:<br>• Data arolwg ar adborth digwyddiad<br>• Cofnodion Gweithgor Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso<br>• Adroddiadau mewnol Ofcom<br>• Cofnodion aelodaeth y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau<br>• Bwletinau'r Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau |

**Sut i ddarllen y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn**
Mae llawer o'r dystiolaeth ymchwil sylfaenol yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl a sefydliadau yn ei ddweud am eu profiadau o waith Ofcom, yn hytrach na chanlyniadau sy'n cael eu mesur yn annibynnol.

- Roedd y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn cynnwys samplo pwrpasol i sicrhau cymysgedd o safbwyntiau ar draws y tair ffrwd waith, cynrychiolaeth o ddaearyddiaeth gyfan y DU a gwahanol lefelau o ymgysylltu â gweithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom. Gan fod cymryd rhan yn wirfoddol, mae risg o ragfarn hunanddethol ac felly dylid dehongli'r canfyddiadau fel rhai sy'n adlewyrchu safbwyntiau'r rhanddeiliaid â mwy o ddiddordeb.
- Nid oedd sampl arolwg y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau ar hap, ac roedd y cyfraddau ymateb yn gymedrol (arolwg sylfaenol =12%, arolwg dilynol =7%), sy'n golygu y dylid ystyried y canfyddiadau fel rhai dangosol yn hytrach na rhai sy'n ystadegol gynrychioladol.
- Gan mai adolygiad canol tymor yw hwn, mae llawer o weithgareddau'r rhaglen yn dal i fynd rhagddynt ac nid yw eu heffeithiau tymor hwy yn gwbl weladwy eto.
- Mae'n haws dangos rhai canlyniadau nag eraill. Er bod amrywiaeth o ffynonellau data a gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael eu defnyddio, mae rhai

mathau o weithgareddau'n fwy cymhleth i'w mesur, gyda llai o allbynnau allanol hyd yn oed tra bo llawer o waith paratoi wedi cael ei wneud.

Er mwyn lliniaru'r cyfyngiadau hyn, mae asesiadau gwerthuso yn seiliedig ar farn gytbwys o gysondeb a chryfder safbwyntiau rhanddeiliaid, sy'n cael eu hystyried ochr yn ochr â ffynonellau tystiolaeth eraill a'r cyd-destun polisi a rheoleiddio ehangach. Oni nodir yn wahanol, y gwerthuswr sydd wedi cynnal pob asesiad yn yr adroddiad hwn.

Defnyddir y dosbarthiadau yn y tabl isod i grynhoi cynnydd, gan adlewyrchu cryfder ac aeddfedrwydd y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r fframwaith asesu yn canolbwyntio ar nodi'r cyfeiriad arfaethedig, achosion o gywiro trywydd gan y tîm Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau a chyfleoedd i fireinio a datblygu ymhellach. Nid yw'r gwerthusiad canol tymor yn cynnwys dadansoddiad o p'un a yw mentrau wedi llwyddo neu fethu, gan y byddai asesiad o'r fath yn gynamserol.

Ar y sail hon, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi asesiadau o **gynnydd da, rhywfaint o gynnydd da** neu **dystiolaeth gyfyngedig o gynnydd**. Mae hyn yn adlewyrchu'r cam cyflawni cynnar a'r dystiolaeth fonitro a ddefnyddir gan y tîm Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau ar gyfer adroddiadau ac adolygiadau chwarterol, sy'n awgrymu, er bod rhai heriau, bod y gwaith o weithredu'r strategaeth yn dal ar y trywydd iawn yn gyffredinol.

| | Dehongliad canol tymor |
|---|---|
| **Cynnydd da** | Mae tystiolaeth o sawl ffynhonnell yn dangos bod y strategaeth yn gweithio fel y dylai yn y maes hwn a bod y canlyniad yn debygol o gael ei gyflawni dros oes y strategaeth. |
| **Rhywfaint o gynnydd da** | Mae tystiolaeth gredadwy o newid cadarnhaol, ond mae'r cynnydd yn rhannol neu ar gam cynnar. |
| **Tystiolaeth gyfyngedig o gynnydd** | Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth o'r newid arfaethedig. Efallai nad oes modd gweld canlyniadau eto ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, neu efallai nad yw cyfraniad Ofcom yn amlwg eto. |

# 2. Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso

*Mae'r ffrwd waith hon wedi'i chynllunio i gryfhau'r ecosystem llythrennedd yn y cyfryngau drwy gynhyrchu gwybodaeth o ansawdd uchel a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n eang*

**Beth sy'n gweithio'n dda**

- Mae arolygon ar raddfa fawr ac ymchwil hydredol yn cael eu parchu, eu defnyddio a'u dyfynnu'n eang gan randdeiliaid
- Cefnogaeth gref ymysg rhanddeiliaid i weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella samplu a dadansoddi croestoriadol
- Mae rhanddeiliaid yn aml yn dweud bod y Pecyn Gwerthuso a'r Banc Canlyniadau yn ffynonellau defnyddiol, ac maent yn cael eu cymeradwyo yng Nghynllun Gweithredu Llythrennedd yn y Cyfryngau'r Llywodraeth
- Mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi amrywiaeth sianeli Ofcom ar gyfer rhannu ymchwil a'r wybodaeth ddiweddaraf;
- Mae methodoleg cyd-greu, a ddefnyddir i gyflawni'r ymchwil camwybodaeth/twyllwybodaeth i safon uchel, yn boblogaidd ymysg cyfranogwyr.

**Canlyniad 1:**
**Defnydd cynyddol o dystiolaeth ymchwil Ofcom ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau polisi**

*Asesiad cyffredinol*
Mae'r dystiolaeth ganol tymor yn dangos **cynnydd da** at y canlyniad hwn, gyda lle i ymestyn y defnydd yn ehangach

*Tystiolaeth ategol*
**Mae rhanddeiliaid yn gyson yn disgrifio gwaith Ofcom fel gwaith cadarn ac awdurdodol, ac mae'n cael ei ddefnyddio i gyfrannu at weithgarwch ymchwil arall, cynllunio prosiectau, eiriolaeth, datblygu'r cwricwlwm ac adnoddau, ac mewn ceisiadau am gyllid**

Mae arolwg y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn dangos lefelau uchel o foddhad ag ymchwil Ofcom i lythrennedd yn y cyfryngau, yn enwedig ei chadernid, ei hygrededd a'i pherthnasedd.

**Roedd naw ymatebydd o bob deg yn fodlon â'r canlynol:**

| Pa mor gadarn a chredadwy yw ymchwil Ofcom | Defnyddioldeb adrodd | Perthnasedd i'w gwaith |
|---|---|---|
| **94%** (48/51) | **94%** (48/51) | **86%** (44/51) |

Yn gyffredinol, mae tystiolaeth o gyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod ymchwil graidd Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau yn fethodolegol gadarn, yn annibynnol ac yn ddibynadwy.

Mae ymgysylltu'n rheolaidd ag ymchwil llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom yn amlwg ymysg y rhan fwyaf o ymatebwyr y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, gyda chwech o bob deg yn ei defnyddio bob ychydig fisoedd neu'n amlach (31/52 = 59%). Ar yr un pryd, mae ymgysylltiad y pedwar ymatebydd arall o bob deg yn dal yn fwy ysbeidiol, sy'n dangos bod lle i ymestyn y defnydd o'r ymchwil ymhellach.

Dywedodd rhanddeiliaid fod nifer o brosiectau ymchwil Ofcom sy'n seiliedig ar bynciau wedi bod yn ddefnyddiol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys astudiaethau sy'n edrych ar

niwed ariannol i blant, y ‘manosffer’, a chynnwys Ymateb Meridian Synhwyraidd Annibynnol (ASMR).

Er enghraifft, roedd y ffrwd waith Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso wedi cryfhau’r sylfaen dystiolaeth ar niwed ariannol i blant, gan helpu i adeiladu ar waith sy’n blaenoriaethu llythrennedd yn y cyfryngau defnyddwyr ar lwyfannau drwy hyrwyddo arferion gorau. Mae’r ymchwil yn cyflawni nod Ofcom i archwilio “sut gallai nodweddion dylunio perswadiol arwain at niwed ariannol posibl i blant,” gan ddarparu gwybodaeth sy’n gallu cyfrannu at ddyluniad gwell a chefnogi ymgysylltiad mwy gwybodus â defnyddwyr. Mae adborth allanol yn arwydd o’i heffaith, gydag un rhanddeiliad o gorff anllywodraethol yn nodi ei bod yn “dilysu ein rhaglen”, gan ychwanegu bod “[...] cael corff fel Ofcom i fuddsoddi [yn yr ymchwil hon] yn wych.”

### Mae cyhoeddiadau Ofcom yn cael eu cynrychioli’n dda mewn dogfennau polisi cyhoeddus mawr, sy’n dangos dylanwad lefel uchel

Mae ymchwil a chyhoeddiadau Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau wedi cael eu dyfynnu’n helaeth mewn dogfennau polisi diweddar (adolygiadau, adroddiadau, dogfennau briffio ac ymgynghoriadau) a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod gwerthuso canol tymor. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys:

- ‘Tyfu i fyny yn y byd ar-lein: sgwrs genedlaethol’, yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (Mawrth 2026). Mae’n dyfynnu tri chyhoeddiad ymchwil Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau.
- ‘Curriculum and Assessment Review, Building a world-class curriculum for all: Final Report’ (Tachwedd 2025). Mae’n dyfynnu tri chyhoeddiad ymchwil Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau.
- Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi, 2025, 3ydd Adroddiad Sesiwn 2024-25: Llythrennedd yn y Cyfryngau’ (Gorffennaf 2025). Mae’n dyfynnu tri chyhoeddiad ymchwil Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau.

**Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach**

**Defnyddioldeb:** Nododd rhai rhanddeiliaid y byddai dadansoddiad sy’n seiliedig ar gwestiynau polisi allweddol yn cryfhau pa mor ddefnyddiol a pherthnasol yw rhywfaint o ymchwil Ofcom, fel yr ymchwil tracio blynyddol, gyda thrafodaeth gliriach ynghylch beth mae’r canfyddiadau’n ei olygu i ddadleuon a phenderfyniadau polisi penodol.

**Canfod a hygyrchedd:** Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y dylid gwneud mwy i wneud ymchwil yn weladwy ac yn hygyrch i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr. Yn ôl rhai rhanddeiliaid, ystyrir bod y dull ffynhonnell data agored yn ddefnyddiol i’r rheini sydd â sgiliau a chapasiti, ond nid yw’n addas i bawb.

## Canlyniad 2:
## Gwell dealltwriaeth o lythrennedd yn y cyfryngau a ffordd well o fesur hynny

***Asesiad cyffredinol***

Mae’r dystiolaeth ganol tymor yn dangos **cynnydd da** at y canlyniad hwn, gyda’r posibilrwydd o gynnydd pellach yn rhan olaf cyfnod y strategaeth wrth i’r ymchwil tracio ddiwygiedig gael ei chyflwyno

*Tystiolaeth ategol*

### Mae tystiolaeth o arolygon a chyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos cytundeb cyffredinol bod ymchwil Ofcom yn helpu i lywio dealltwriaeth defnyddwyr mewn ffyrdd penodol a phwysig

Canfu arolwg dilynol y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau fod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno bod eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o lythrennedd yn y cyfryngau wedi

gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod gweithgarwch Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau wedi chwarae rhan yn hyn:

| | |
|---|---|
| **Roedd wyth ymatebydd o bob deg yn cytuno bod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wedi gwella** | **85%** **(44/52)** |
| **Roedd saith ymatebydd o bob deg yn cytuno bod gwaith Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth** | **71%** **(37/52)** |

Roedd llawer o randdeiliaid yn cytuno bod ymchwil Ofcom wedi helpu i egluro problemau a thueddiadau, gan gynnwys materion a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg, ac mae'n darparu dilysrwydd a thystiolaeth i gyllidwyr, llunwyr polisïau a phartneriaid wrth gyflwyno'r achos dros gymorth llythrennedd yn y cyfryngau.

**Mae rhanddeiliaid yn cefnogi'n gryf y dull gweithredu diwygiedig ar gyfer yr ymchwil traciwr flynyddol, gyda chefnogaeth glir i waith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu samplau mwy cynhwysol, mwy o adroddiadau ar is-grwpiau a dadansoddiadau croestoriadol**

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn croesawu'n benodol ymdrechion i wella cynrychiolaeth o wahanol is-grwpiau yn yr ymchwil. Rhybuddiodd nifer hefyd na ddylai cynrychiolaeth fod yn fater o samplu yn unig, a bod yn rhaid i ddadansoddiadau ac adroddiadau wneud defnydd sylweddol o'r is-grwpiau hyn i daflu goleuni ar amrywiaeth o agweddau, ymddygiad a'r risg o niwed.

**Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach**

**Meysydd o ddiddordeb ar gyfer cynrychiolaeth well mewn ymchwil:** Roedd gan randdeiliaid ddiddordeb penodol mewn cael mwy o gynrychiolaeth ddaearyddol, a mwy o amlygrwydd a naws i grwpiau penodol yn setiau data Ofcom (rhoddwyd enghreifftiau ar sail y grwpiau y mae gan wahanol randdeiliaid ddiddordeb ynddynt, gan gynnwys pobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel, pobl â sgiliau digidol isel, cymunedau mudol a lleiafrifol, a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor).

**Ychwanegu gwerth at ymchwil sy'n bodoli eisoes:** Mae cefnogaeth eang ymysg rhanddeiliaid i ragor o adolygiadau llenyddiaeth a dadansoddiad eilaidd o ffynonellau presennol, y gallai Ofcom fynd i'r afael â nhw drwy gomisiynu astudiaethau i gyfuno'r dystiolaeth bresennol, nodi bylchau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil bellach (yn unol â'i rôl fel cynullydd a chatalydd).

## Canlyniad 3:
## Dealltwriaeth ddyfnach o 'beth sy'n gweithio' o ran cyflawni ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau mewn sectorau perthnasol

***Asesiad cyffredinol***

Mae'r dystiolaeth ganol tymor yn dangos rhywfaint o gynnydd da at y canlyniad hwn, gyda rhanddeiliaid yn canmol gwaith ymchwilio a gwerthuso Ofcom drwy helpu i ddatblygu dealltwriaeth o 'beth sy'n gweithio'. Mae cefnogaeth ymysg rhanddeiliaid i ganolbwyntio mwy ar synthesis, y gallu i dyfu a chanllawiau cliriach sy'n deillio o'r dystiolaeth honno.

*Tystiolaeth ategol*

**Mae tystiolaeth bod y tîm llythrennedd yn y cyfryngau, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi annog mwy o gyfranogiad a diddordeb mewn gwerthuso ymysg aelodau'r Rhwydwaith**

**Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, a rhannu adroddiadau gwerthuso a 'beth sy'n gweithio'**

Roedd aelodau'r Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn cael eu hannog i ymestyn a dyfnhau eu hymgysylltiad â gwerthusiadau drwy ymgysylltu â chyhoeddiadau a diweddariadau Ofcom, yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau, gweminarau, trafodaethau bwrdd crwn a gweithgorau Ofcom.

**Dywedodd wyth ymatebydd o bob deg:**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd Ofcom wedi eu hannog i ddarllen adroddiadau gwerthuso neu ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau a gynhyrchwyd gan eraill
**84%** **(42/50)**

**Dywedodd chwech ymatebydd o bob deg:**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd Ofcom wedi eu hannog i ddysgu mwy am werthuso
**64%** **(28/44)**

**Dywedodd pump ymatebydd o bob deg:**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd Ofcom wedi eu hannog i werthuso eu gweithgarwch eu hunain
**54%** **(22/41)**

Roedd tua hanner ymatebwyr arolwg y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau wedi rhannu canfyddiadau gwaith ymchwil neu werthusiadau ar effaith ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (28/52 = 54%). O'r rhain, dywedodd chwech o bob deg eu bod wedi cael eu hannog i wneud hynny gan waith tîm llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf (16/28 = 57%).

At hynny, dywedodd saith o bob deg a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi rhannu argymhellion neu gyngor arfer gorau am ymyriadau effeithiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (36/52 = 69%). O'r rhain, dywedodd saith o bob deg eu bod wedi cael eu hannog i wneud hynny gan waith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau dros y flwyddyn ddiwethaf (24/36 = 67%).

> *"Mae Ofcom wedi bod yn cymryd rôl arwain enfawr o ran gwerthuso"*
> **Rhanddeiliad Corff Anllywodraethol**

**Er bod y rheini sydd eisoes yn ymwneud â gweithgarwch tîm llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom yn dweud bod ganddynt lefelau uchel o ddealltwriaeth o 'beth sy'n gweithio', mae llawer o randdeiliaid yn teimlo bod gwaith Ofcom yn y maes hwn wedi cryfhau eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth**

Dywedodd wyth ymatebydd o bob deg fod gwaith Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud cyfraniad canolig neu gryf at wella eu dealltwriaeth o 'beth sy'n gweithio' ar gyfer darparu ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau (40/51 = 78%; dywedodd 35% ei fod wedi gwneud cyfraniad cryf).

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at brosiectau a gomisiynwyd gan Ofcom fel enghreifftiau o arferion da y maent yn bwriadu eu defnyddio i deilwra llythrennedd yn y cyfryngau i gyd-destunau lleol, addasu cynnwys i flaenoriaethau cymunedol a gweithio gyda hwyluswyr lleol dibynadwy.

**Mae'r cymorth pwrpasol a ddarparwyd gan Ofcom o ran gwerthuso prosiectau a gomisiynwyd wedi bod o fudd i'r rheini sydd wedi cymryd rhan**

Disgrifiodd nifer o randdeiliaid a oedd yn ymwneud â phrosiectau a gomisiynwyd eu bod yn cael eu cefnogi gan Ofcom i ddylunio a chynnal eu gwerthusiadau eu hunain. Roeddent yn defnyddio'r fframweithiau a'r adnoddau gwerthuso hyn i fireinio'r ddarpariaeth, cofnodi canlyniadau'n gliriach a chynhyrchu adroddiadau cryfach.

*“Rwyf wedi dysgu llawer mwy am werthuso ers gweithio gydag Ofcom, ac rwy’n teimlo’n llawer mwy hyderus. Rydw i’n defnyddio’r hyn rydw i wedi’i ddysgu gyda chyllidwyr a [...] cheisiadau am gyllid”*
**Rhanddeiliad Corff Anllywodraethol**

**Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach**

**Cryfhau sylfaen dystiolaeth ‘beth sy’n gweithio’:** Roedd ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o gorff cynyddol Ofcom o adroddiadau gwerthuso a gyhoeddwyd yn anghyson. Mae tystiolaeth y gwerthusiad yn dangos y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod y rhain ar gael drwy wahanol sianeli a rhwydweithiau a/neu mewn ffyrdd mwy arloesol a diddorol.

Ar ben hynny, mae awydd am grynodebau mwy cyfunol o “beth sy’n gweithio”, gyda rhanddeiliaid yn nodi gwerth troi dysgu unigol ar lefel prosiect yn ganllawiau a modelau mwy cyffredinol y gellir eu hefelychu.

Ar gyfer adroddiadau a baratowyd gan bartneriaid sy’n ymwneud â phrosiectau a gomisiynwyd, awgrymodd nifer o randdeiliaid y dylai Ofcom ystyried cynnwys adran fer ar “oblygiadau ymarferol” fel mater o drefn, er mwyn i ddefnyddwyr allu gweld sut dylai canfyddiadau siapio ymyriadau yn y dyfodol.

**Rhannu cymar-i-gymar:** Mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gellir gwneud mwy i rannu tystiolaeth ac arferion gorau yn well rhwng cymheiriaid. Er bod ymarferwyr yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i rannu eu gwybodaeth, byddai llawer yn hoffi cael strwythurau mwy bwriadol a pharhaus i hyrwyddo dysgu ar draws sectorau.

# 3. Ymgysylltu â Phlatfformau

*Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys annog platfformau a darlledwyr i wneud mwy i hyrwyddo a chefnogi llythrennedd yn y cyfryngau, gan gynnwys ymgorffori llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio, sefydlu cyllid cynaliadwy hirdymor ar gyfer llythrennedd yn y cyfryngau a gwella cymorth drwy werthuso*

**Beth sy'n gweithio'n dda**

- Cefnogaeth eang ymysg rhanddeiliaid i lythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio
- Ymgysylltiad cryf â'r ymgynghoriad ar gyfer y Datganiad o Argymhellion drafft
- Safbwyntiau cadarnhaol ar y cyfan o gyfweliadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr o lwyfannau a'r sector technoleg ynghylch yr Egwyddorion Arferion Gorau ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau drwy Ddylunio (BPPs) sy'n gweithredu fel canllawiau heb fod yn rhagnodol ac sy'n cefnogi hunanasesiad strwythuredig fel rhan o daith ddatblygu
- Tystiolaeth bod y tîm llythrennedd yn y cyfryngau wedi bod yn rhagweithiol o ran cefnogi ac arwain cwmnïau sydd wedi ymrwymo i Egwyddorion Arferion Gorau
- Mae ymgysylltu â darlledwyr wedi galluogi canolbwyntio ar ba agweddau ar weithgarwch ac allbwn darlledwyr sy'n ymwneud ag llythrennedd yn y cyfryngau.

**Canlyniad 4:**
**Darparu gwell cymorth llythrennedd yn y cyfryngau gan lwyfannau a darlledwyr i ddefnyddwyr**

**Canlyniad 5:**
**Mwy o werthuso o effeithiolrwydd y cymorth hwnnw i ddefnyddwyr**

**Canlyniad 6:**
**Mae mentrau llythrennedd yn y cyfryngau yn cael eu hariannu'n well yn y tymor hir**

***Asesiad cyffredinol***

Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch yn erbyn y canlyniadau hyn wedi'i gynllunio ar gyfer hanner olaf cyfnod y strategaeth, ac o ganlyniad, ni chanfu'r gwerthusiad canol tymor lawer o dystiolaeth o gynnydd hyd yma. Bydd y gweithgarwch arfaethedig, gan gynnwys monitro gwybodaeth am ymddygiad, a monitro effaith argymhellion newydd Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau, yn cael eu hystyried yn llawn ar ddiwedd y cyfnod gwerthuso.

*Tystiolaeth ategol*

**Roedd lefel mabwysiadu'r egwyddorion arfer gorau yn gynnar gan lwyfannau yn addawol. Mae'r gweithgarwch presennol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Datganiad o Argymhellion**

> *"Roeddwn i'n meddwl bod y gwaith llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio yn addawol iawn"*
> **Rhanddeiliad academaidd**

O dan y trefniadau gwirfoddol presennol, mae mabwysiadwyr cynnar yr Egwyddorion Arferion Gorau yn cynnwys rhai o'r platfformau a'r cwmnïau technoleg mwy sy'n gweithredu yn y DU (Google Search, The LEGO Group, Pinterest, Roblox a TikTok), gan nodi dechrau cadarnhaol.

Mae tystiolaeth o gyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos bod y broses hunanasesu wedi bod yn ddefnyddiol, gan dynnu sylw at enghreifftiau o ymgysylltu gwirioneddol â'r Egwyddorion Arferion Gorau drwy bolisi, nodweddion wedi'u gwreiddio, ymgyrchoedd a monitro, gyda

thystiolaeth o integreiddio “drwy ddylunio”. Fodd bynnag, mae adolygiad o asesiadau a gwblhawyd yn dangos eu bod yn tueddu i fynegi gweithgareddau yn hytrach na chanlyniadau, gyda llai o dystiolaeth o werthuso ffurfiol. Maent wedi helpu i ddangos pa fesurau llythrennedd yn y cyfryngau mae platfformau'n eu hystyried, ond roeddent yn canolbwyntio llai ar ddangos yr effaith ar ddefnyddwyr.

Mynegodd rhai rhanddeiliaid academaidd a chyrff anllywodraethol bryder ynghylch y diffyg monitro a gorfodi allanol. Mae pryder hefyd nad yw canllawiau gwirfoddol ar eu pen eu hunain yn symud cymhellion yn ddigonol oddi wrth ddylunio sy'n cael ei yrru gan sylw; a'u bod yn caniatáu i gwmnïau honni eu bod yn gyson heb newid systemau craidd o reidrwydd. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes gan Ofcom bwerau gorfodi yn y maes hwn, ac mae'r dull gweithredu o blaid rhoi cyfle i lwyfannau gymryd y camau mwyaf priodol sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfio syml.

> *“Mae llawer o'r hyn y mae Ofcom yn ei gyhoeddi [am lythrennedd yn y cyfryngau] yn gwneud synnwyr. Ond yr hyn sy'n anodd yw'r agwedd atebolrwydd hon. Nid yw gorfodi'r ddeddfwriaeth yn mynd yn ddigon pell.”*
> ***Rhanddeiliad o Gorff Anllywodraethol***

Ymgynghorodd Ofcom ar Ddatganiad o Argymhellion drafft ('Sut mae Hyrwyddo Llythrennedd yn y Cyfryngau') yn ystod y cyfnod canol tymor. Mae'r argymhellion drafft, sy'n adeiladu ar yr egwyddorion arfer gorau ac yn ymhelaethu arnynt, wedi'u trefnu o dan bedwar pennawd lefel uchel:

- Dylunio i roi gwell dewis i ddefnyddwyr
- Grymuso pobl wrth ddefnyddio
- Meithrin ymddiriedaeth y tu hwnt i'r gwasanaeth
- Gwerthuso'r hyn sy'n gweithio

Mae'n rhy gynnar asesu effaith yr argymhellion ar hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau, gan fod yr argymhellion terfynol ar lythrennedd yn y cyfryngau wedi cael eu cyhoeddi ar ôl cyfnod y gwerthusiad hwn, a bydd hyn yn cael sylw ar ddiwedd y gwerthusiad o'r strategaeth.

Yn ogystal â'r Egwyddorion Arferion Gorau a'r argymhellion llythrennedd yn y cyfryngau, mae ymchwil a gomisiynwyd gan Ofcom ym maes dylunio perswadiol a niwed ariannol i blant wedi cyfrannu at ymgysylltu â phlatfformau ac wedi darparu rhywfaint o atebolrwydd. Ar ben hynny, mae wedi siapio'r gwaith o ymgysylltu â'r Comisiwn Gamblo, y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Yn ogystal â hynny, mae cyfeiriadau penodol at yr ymchwil gan y Corff Anllywodraethol a'r gofod llenyddiaeth llwyd, gan gynnwys mewn cyhoeddiadau gan Rwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, Sefydliad 5Rights, Parth Rhieni; Ygam a Mumsnet.

### Mae gan ddarlledwyr safbwyntiau gwahanol am eu rôl o ran hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Mae'r gweithgarwch presennol sy'n gysylltiedig â'u rôl yn canolbwyntio ar y Datganiad o Argymhellion

Canfu cyfweliadau rhanddeiliaid â darlledwyr fod safbwyntiau'n amrywio o ran eu rôl hyrwyddo, cefnogi a gwerthuso gweithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau, a thystiolaeth o wahanol ddulliau gweithredu.

Fel y nodwyd yn 'Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus' (Gorffennaf 2025), bu Ofcom yn siarad ag amrywiaeth o ddarlledwyr a chanfu eu bod yn cymryd rhan mewn tri math eang o weithgaredd llythrennedd yn y cyfryngau, sy'n cyd-fynd â chynulleidfaoedd targed eu sianel:

- Darpariaeth uniongyrchol (ar-lein neu wyneb yn wyneb, gwersi/gweithdai byw ac ati)
- Adnoddau ar-lein (gan gynnwys cwisiau a deunyddiau addysgu/deunyddiau dysgu)
- Cynnwys mewn rhaglenni (ee rhaglenni sy'n archwilio themâu llythrennedd yn y cyfryngau, neu drwy newyddiaduraeth o ansawdd uchel, gwirio ffeithiau ac ati)

Mae'r Datganiad o Argymhellion drafft yn nodi sut gall darlledwyr hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Bydd effaith yr argymhellion sy'n ymwneud â darlledwyr yn cael sylw ar ddiwedd y gwerthusiad strategaeth.

### Mae newidiadau yn lefel a hyd y cyllid ar gyfer ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau gan lwyfannau a darlledwyr yn dal yn aneglur yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael

Ychydig iawn o dystiolaeth o lefel a hyd y cyllid ar gyfer hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau a chefnogaeth gan lwyfannau a darlledwyr oedd ar gael ar gyfer y gwerthusiad.

**Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach**
Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ehangu'r dull o ymdrin ag llythrennedd yn y cyfryngau drwy ddylunio drwy'r Datganiad o Argymhellion (Argymhellion Llythrennedd yn y Cyfryngau).

**Platfformau ac Egwyddorion Arferion Gorau:** Mae tystiolaeth y gwerthusiad canol tymor hwn yn cefnogi'r symudiad arfaethedig at fonitro gwasanaethau ar-lein yn barhaus gan ddefnyddio ymchwil gwybodaeth am ymddygiad, yn annibynnol ar y platfformau, i godi ymwybyddiaeth a gweithredu'r argymhellion.

**Darlledwyr:** Bydd Ofcom yn parhau i ymgysylltu â darlledwyr i ddeall y dulliau gweithredu a fydd yn gweithio orau iddyn nhw a'u cynulleidfaoedd, ac mae tystiolaeth rhanddeiliaid yn cefnogi'r dull gweithredu hwn. Canfu'r cyfweliadau â rhanddeiliaid fod y dirwedd darlledu a'r modelau busnes yn amrywiol ac o dan bwysau, gan awgrymu nad oes un ffordd syml o gynyddu'r gefnogaeth er mwyn sicrhau mwy o ddarpariaeth llythrennedd yn y cyfryngau, gyda thystiolaeth well. Gan nad oes rhwymedigaethau llythrennedd yn y cyfryngau y gellir eu gorfodi ar ddarlledwyr ar hyn o bryd, mae dylanwad tebygol Ofcom yn parhau i fod o'i bŵer cynnull, ar sail tystiolaeth. [1]

*Daw'r gwerthusiad hwn i'r casgliad mai defnydd parhaus Ofcom o ymchwil, adnoddau a brocera partneriaeth i sbarduno datblygiadau yn y dyfodol, fel y nodir yn yr argymhellion llythrennedd yn y cyfryngau, sy'n debygol o wneud y cyfraniad mwyaf effeithiol at ganlyniadau 4 a 5.*

**Modelau cyllido:** Mae'r her sy'n ymwneud â chyllid cynaliadwy hirdymor yn parhau ac, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'n glir pa lefel a hyd cyllid y gall platfformau a darlledwyr ei gyfrannu i gefnogi llythrennedd yn y cyfryngau. Felly, mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod angen rhagor o dystiolaeth am lefel a hyd cyllid.

[1] Gan edrych ymlaen, mae'r Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfryngau'r DU (Watch this space: a new strategic direction for UK media) yn cynnig dyletswydd gyfreithiol newydd ar ddarparwyr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus i ddatblygu ac adrodd ar strategaethau llythrennedd yn y cyfryngau.

# 4. Pobl a Phartneriaethau

*Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys model cydweithredol sy'n gweithio'n fanwl drwy gomisiynu a chefnogi ymyriadau meithrin sgiliau mewn meysydd blaenoriaeth a thrwy rannu'r hyn sy'n gweithio. Mae hefyd yn gweithredu'n ehangach drwy annog ymgysylltu ag llythrennedd yn y cyfryngau ar draws amrywiaeth eang o sectorau*

**Beth sy'n gweithio'n dda**

- Mae tystiolaeth gwerthusiadau o brosiectau a gomisiynwyd yn dangos manteision cadarnhaol cymorth a gweithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau i'r rheini sy'n cymryd rhan
- Mae prosiectau a gomisiynwyd hefyd wedi dilysu llythrennedd yn y cyfryngau fel gweithgaredd strategol ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan ac ar draws amrywiaeth o sectorau, gan wella'r gwaith o gyflwyno achosion i gyllidwyr
- Mae datblygu'r Gymuned o Gorfforaethau (sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid corfforaethol a phartneriaid eraill o amrywiaeth eang o wahanol sectorau) a gwaith gyda chlybiau pêl-droed yn cadw'r addewid o weithgarwch graddadwy
- Annog arwyddion a gwersi gwerthfawr o waith gydag awdurdodau lleol a llywodraethau yn y gwledydd cartref
- Mae cyfuniad o rôl cynnull Ofcom a'i weithgarwch allgymorth yn helpu i ehangu'r agenda sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol i gynnwys agweddau eraill ar lythrennedd yn y cyfryngau
- Mae cymryd rhan mewn paneli cynghori, Cymuned o Gorfforaethau, trafodaethau bwrdd crwn ar ddeallusrwydd artiffisial a phynciau eraill, a digwyddiadau, wedi dangos i sefydliadau bod llythrennedd yn y cyfryngau yn flaenoriaeth ar y cyd ar draws sectorau, gan godi ei phroffil ar agendâu mewnol
- Mae'r Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn parhau i dyfu ac amrywio.

**Canlyniad 7:**
**Mae addysgwyr a gweithluoedd blaenoriaeth eraill mewn sefyllfa well i ddarparu sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau**

***Asesiad cyffredinol***

Mae'r dystiolaeth ganol tymor yn dangos **rhywfaint o gynnydd da** at y canlyniad hwn, gyda synthesis o'r dystiolaeth bresennol 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn darparu data hunangofnodedig am ganlyniadau dysgu datblygiad proffesiynol ac yn nodi gwersi defnyddiol ar gyfer mentrau yn y dyfodol, ynghyd â gwaith mapio sy'n edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau mewn hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus athrawon presennol.

*Tystiolaeth ategol*

**Mae'r ymchwil weithredol a'r gwaith mapio presennol yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gweithgarwch a gomisiynir gan weithio gydag addysgwyr a gweithluoedd blaenoriaeth eraill dros gyfnod y strategaeth tair blynedd.**

Roedd synthesis o dystiolaeth o rownd flaenorol o brosiectau a gomisiynwyd gan ddefnyddio model 'hyfforddi'r hyfforddwr' gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a gyhoeddwyd gan Ofcom ym mis Medi 2025, wedi canfod canlyniadau addawol o'r dull hwn ('Beth sy'n Gweithio wrth Ddarparu Ymyriadau Hyfforddi'r Hyfforddwr?').

Cyhoeddodd Ofcom ganfyddiadau hefyd o ymarfer mapio newydd i weld lle roedd canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom eisoes yn cael sylw mewn hyfforddiant DPP i athrawon ('A teachable moment: Opportunities, Gaps and Next Steps from our Review of Media Literacy Training for Teachers').

Canfu'r gwaith fod diffyg hyfforddiant i athrawon ddatblygu agweddau mwy gweithredol a chreadigol ar lythrennedd yn y cyfryngau ac roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion allweddol i fynd i'r afael â hyn a bylchau eraill. Ar sail y gwaith mapio, aeth Ofcom ati wedyn i gomisiynu Common Sense Media i ddarparu prosiect peilot dinasyddiaeth ddigidol a llythrennedd yn y cyfryngau ar draws De-orllewin Lloegr (er bod y prosiect wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2026, mae'n rhy gynnar i adrodd ar gynnydd ar hyn o bryd).

**Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach**

**Mesur lefelau hyder:** Mae mesurau hyder yn un ffynhonnell bwysig o dystiolaeth ar gyfer y canlyniad hwn. Mae'r adroddiad 'beth sy'n gweithio' yn nodi cafeat methodolegol pwysig sy'n berthnasol i ganfyddiadau hyder, gyda thystiolaeth y gallai rhai cyfranogwyr fod wedi goramcangyfrif eu lefelau hyder cyn yr hyfforddiant.

Mae'r adroddiad yn argymell defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu y tu hwnt i ddata hunan-gofnodedig, gan gynnwys defnyddio arolygon ar ôl y rhaglen sy'n cyfuno cwestiynau cyn ac ar ôl y rhaglen i fynd i'r afael â'r mater hwn. Ar y sail hon, mae'n werth i Ofcom ystyried defnyddio argymhelliad yr adroddiad ar gyfer pob prosiect hyfforddi'r hyfforddwr yn y dyfodol.

## Canlyniad 8:
## Mae mwy o bobl yn gallu cael gafael ar y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i lywio drwy gynnwys a ffynnu'n ddiogel ar-lein

***Asesiad cyffredinol***

Mae tystiolaeth gynnar yn dangos rhywfaint o gynnydd da at y canlyniad hwn. Bydd darlun llawnach o ganlyniadau ac effaith prosiectau a gomisiynir yn fwy hysbys erbyn diwedd cyfnod y strategaeth, ynghyd â thystiolaeth o waith newydd mewn partneriaeth â chlybiau pêl-droed ac allbynnau gan y Gymuned Gorfforaethol.

### *Tystiolaeth ategol*

**Adroddiadau gwerthuso gan brosiectau a gomisiynwyd yn darparu tystiolaeth o ddatblygiad sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau a gwybodaeth am y mathau o gymorth sydd fwyaf effeithiol**

Comisiynodd Ofcom amrywiaeth eang o brosiectau wedi'u targedu a oedd yn darparu cymorth, hyfforddiant a datblygiad uniongyrchol ym maes llythrennedd yn y cyfryngau yn ystod y cyfnod canol tymor:

- Mae Red Chair a Sefydliad y Guardian yn cyflwyno'r rhaglen Untold Stories, gan weithio mewn ardaloedd o anfantais ariannol i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion hŷn i sylwi ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a meithrin dealltwriaeth o rôl newyddion lleol.
- Mae'r Parth Rhieni yn cyflwyno'r rhaglen Lleisiau Gwybodus i helpu i gefnogi pobl ifanc, yn enwedig y rheini sy'n pleidleisio am y tro cyntaf, i lywio cynnwys ar-lein sy'n ymwneud ag etholiadau ledled y DU.
- Mae PK Porthcurno a Libraries Unlimited yn gweithio gydag amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn ne-orllewin Lloegr i ddarparu llythrennedd yn y cyfryngau drwy arddangosfeydd a gweithgareddau mewn amgueddfeydd a llyfrgelloedd, fel gweithdai a'r arddangosfa "Fake News?", sy'n helpu pobl o bob oed i feithrin sgiliau i ddeall gwybodaeth yn feirniadol a chydnabod camwybodaeth.
- Mae Refuge yn darparu prosiect i gefnogi llythrennedd yn y cyfryngau ar gyfer menywod sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig ('Building Confidence and Control: Media Literacy and Victims/Survivors of Domestic Abuse')
- Bu Common Sense Media yn gweithio gydag ysgolion, ymddiriedolaethau aml-academi ac awdurdodau lleol yn ne-orllewin Lloegr i ymgysylltu ag llythrennedd yn y cyfryngau a darparu hyfforddiant dinasyddiaeth ddigidol.

- Mae gwaith seiliedig ar leoedd, lle mae arbenigwyr lleol yn adeiladu ar y cynnig presennol yn eu cymuned ac yn gwreiddio llythrennedd yn y cyfryngau mewn strategaethau digidol lleol a/neu gynigion cynhwysiad digidol, yn mynd rhagddo yn Birmingham (dan arweiniad ConnectFutures a Loudmouth Education), Glasgow (dan arweiniad Glasgow Life a Mhor Collective), Gogledd Iwerddon (dan arweiniad Canolfan Nerve ac Advice NI) a Rhondda Cynon Taf (dan arweiniad Cwmpas).
- Mae Good Things Foundation wedi rhoi cynnwys llythrennedd yn y cyfryngau ar ei lwyfan dysgu Learn my Way sy'n cyrraedd hyd at 5,000 o bobl y mis, gan gynnwys pynciau ar lesiant digidol, gwybodaeth bersonol a meddwl yn feirniadol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ac, ar draws prosiectau a gomisiynwyd sydd wedi darparu adroddiadau interim, mae tystiolaeth ddangosol o effeithiau cadarnhaol i gyfranogwyr, gan gynnwys gwell ymwybyddiaeth, sgiliau a hyder wrth lywio drwy gynnwys ar-lein. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn dangos y gall ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau sydd wedi'u cynllunio'n dda gyfrannu at newidiadau mewn agweddau ac arferion bob dydd, nid dim ond caffael gwybodaeth.

Mae adolygiad o adroddiadau interim yn canfod bod dysgu o'r prosiectau yn ailadrodd gwerth dulliau sy'n ennyn diddordeb, sy'n berthnasol i brofiadau digidol yn y byd go iawn ac sy'n ymateb i anghenion cynulleidfaoedd gwahanol. Mae adroddiadau interim yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw hyblygrwydd wrth gyflawni, alinio â systemau a lleoliadau presennol, a'r angen am atgyfnerthu dros amser i gynnal canlyniadau. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cyfeirio at fanteision integreiddio gwerthusiadau mewn darpariaeth ar yr un pryd â chadw dulliau'n gymesur ac yn hygyrch.

**Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach**

**Y gallu i dyfu:** Mae tystiolaeth gynyddol o adroddiadau prosiectau interim a chyfweliadau â rhanddeiliaid bod ymyriadau yn y gymuned yn gweithio orau os cânt eu targedu, eu teilwra, eu gwreiddio mewn rhwydweithiau a systemau presennol, a'u darparu mewn partneriaeth â sefydliadau dibynadwy.

Er mwyn osgoi darpariaeth sy'n ymddangos yn dameidiog ar y sail hon, mae'r gwerthusiad hwn yn argymell bod Ofcom yn ystyried parhau i gasglu a rhannu gwybodaeth o bob prosiect a gomisiynir fel sail ar gyfer argymhellion ynghylch 'beth sy'n gweithio ym mha gyd-destunau', gan gymell partneriaid cyflawni i rannu eu dysgu'n ehangach yn eu rhwydweithiau.

Gan fynd ymhellach, hoffai nifer o randdeiliaid i Ofcom ystyried mabwysiadu model comisiynu sy'n cefnogi prosiectau a gwerthusiadau ar raddfa fawr ac yn y tymor hwy. Mae'r farn, ymysg rhai cyrff anllywodraethol sy'n ymwneud â gweithgarwch llythrennedd yn y cyfryngau, yn un sydd hefyd yn cael ei nodi yn yr adroddiad ar Lythrennedd yn y Cyfryngau gan Bwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi (2024/25).

## Canlyniad 9: Mae llythrennedd yn y cyfryngau yn fwy o flaenoriaeth i amrywiaeth ehangach o sefydliadau a sectorau

***Asesiad cyffredinol***

Mae tystiolaeth gynnar yn dangos **rhywfaint o gynnydd da** at y canlyniad hwn. Mae strategaeth Ofcom yn cyfrannu at wneud llythrennedd yn y cyfryngau yn fwy o flaenoriaeth mewn amrywiaeth o sefydliadau a sectorau, er bod y cynnydd yn amrywio oherwydd ffactorau a allai fod y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Ofcom (ee blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu â'i gilydd).

*Tystiolaeth ategol*

**Roedd aelodaeth y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau wedi parhau i dyfu ac amrywio, sy'n darparu mesur procsi defnyddiol ar gyfer rhoi mwy o flaenoriaeth i lythrennedd yn y cyfryngau mewn gwahanol sefydliadau a sectorau**

**536** o aelodau'r Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau ar ddechrau'r strategaeth → **731** erbyn 10 Chwefror 2026 **+36%**

Mae chwech aelod o bob deg a ymunodd yn ystod y cyfnod hwn yn dweud eu bod yn cynnal gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU ar hyn o bryd, sy'n golygu bod gan dros ddwy ran o bump (42%) fuddiant ond yn dweud nad ydynt yn gweithio yn y maes hwn ar hyn o bryd. Mae hyn yn dystiolaeth anuniongyrchol y gallai cyrhaeddiad y Rhwydwaith fod yn ymestyn i sectorau a buddiannau cyfagos.

**Mae un aelod newydd o bob pedwar yn y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn gweithio mewn meysydd sydd wedi'u targedu ar gyfer ehangu'r Rhwydwaith**

gan gynnwys addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol, y cyfryngau (gan gynnwys darlledwyr) a thechnoleg (gan gynnwys platfformau)

**26% (49/186)**

Mae ymatebion penagored i arolwg dilynol aelodau'r Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn darparu tystiolaeth o'r ffyrdd mae gwaith Ofcom wedi cyfrannu at flaenoriaethau, gan gynnwys drwy roi gwybod am ddatblygiadau a chyfleoedd newydd; cefnogi'r gwaith o lunio achosion, gosod agendâu a chynllunio strategol; a dangos ymrwymiad i eiriolaeth sydd o fudd i bawb dan sylw.

**Ar draws y cyfweliadau â rhanddeiliaid, mae llythrennedd yn y cyfryngau yn cael ei ddisgrifio'n gyffredinol fel blaenoriaeth uchel a chynyddol mewn cysylltiad ag agendâu eraill (ee sgiliau digidol, cadernid digidol, diogelwch ar-lein, meddwl yn feirniadol neu allu ariannol)**

Dywedodd tua hanner ymatebwyr arolwg dilynol y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (27/51 = 53%) fod gwaith y Rhwydwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos pa feysydd, yn eu barn nhw, sydd fwyaf perthnasol i'w gwaith, gan ddangos y rôl y gall Ofcom ei chwarae o ran sefydlu cwmpas ehangach llythrennedd yn y cyfryngau a'i berthnasedd ar draws gwahanol agendâu a sectorau polisi.

Yn ôl ymatebion penagored i'r arolwg dilynol, ystyrir bod gweithgarwch Ofcom yn werthfawr o ran darparu eglurder cysyniadol, adnoddau gwerthuso ymarferol a'r wybodaeth ddiweddaraf am y dirwedd llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth gyfoethocach a mwy cynnil o beth yw llythrennedd yn y cyfryngau, ei agweddau lluosog a blaenoriaethau Ofcom ei hun.

**Er gwaethaf enghreifftiau da o feithrin partneriaethau dros hanner cyntaf cyfnod y strategaeth, mae tystiolaeth yn cefnogi'r farn bod gwreiddio llythrennedd yn y cyfryngau mewn strategaethau digidol lleol yn cymryd amser ac ymdrech oherwydd gofynion cystadleuol ar awdurdodau lleol**

Bu Ofcom yn gweithio gyda chwe awdurdod lleol ledled Lloegr ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth, i archwilio sut y gellir ymgorffori llythrennedd yn y cyfryngau yn eu strategaethau digidol a'u gweithgareddau cynhwysiant digidol. Bydd blwyddyn dau yn ymestyn y cyrhaeddiad hwn i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae cynnydd da'n cael ei wneud drwy adeiladu partneriaeth, ond dim ond yn ddiweddarach yng nghyfnod y strategaeth y bydd effaith y gwaith hwn yn cael ei gwireddu.

> *“Mae angen trosi [llythrennedd yn y cyfryngau] yn dermau y mae’r Awdurdodau Lleol yn eu deall, yn eu cydnabod ac y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt.”*
> **Rhanddeiliad yn y sector cyhoeddus**

**Mae tystiolaeth bod rôl Ofcom fel cynullydd a chatalydd, ynghyd â mentrau newydd fel y Gymuned Gorfforaethol, wedi galluogi amrywiaeth eang o sefydliadau i feddwl yn ehangach am lythrennedd yn y cyfryngau**

Mae tystiolaeth o gyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos bod cymryd rhan ym mhaneli cynghori, cyfarfodydd bwrdd crwn a chynadleddau Ofcom wedi dangos i sefydliadau bod llythrennedd yn y cyfryngau yn flaenoriaeth ar draws y sector ledled y DU, gan godi ei phroffil ar agendâu mewnol (ee mewn gwasanaethau ariannol, telegyfathrebiadau, llywodraeth leol a sefydliadau sector ieuenctid). Yn yr achosion hyn, mae rhanddeiliaid yn glir y byddai llythrennedd yn y cyfryngau yn llai o flaenoriaeth yn fewnol neu y byddai’n cael ei fframio’n gulach heb gyfraniad Ofcom.

Canfu’r adroddiad tymor canolig fod potensial cadarnhaol a negyddol deallusrwydd artiffisial yn tynnu mwy o sylw at lythrennedd yn y cyfryngau ymysg rhanddeiliaid. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod meddwl yn feirniadol a dealltwriaeth o sut mae platfformau’n gweithredu yn cael eu cynnwys mewn fframweithiau cymhwysedd digidol oherwydd eu bod yn cael eu cydnabod fwyfwy fel pethau sy’n hanfodol i’r ffordd mae pobl yn ymgysylltu ar-lein. Mae hyn yn cyd-fynd â symudiad Ofcom i ddiweddaru ei fanc canlyniadau i gynnwys canlyniadau sy’n ymwneud yn benodol â chynnwys deallusrwydd artiffisial. Mae ffocws Ofcom ar ddeallusrwydd artiffisial hefyd yn golygu cynnwys cwestiynau am ei ddefnydd mewn arolygon llythrennedd yn y cyfryngau a chynnal academydd sydd wedi bod yn canolbwyntio ar ymchwilio i agweddau’r cyhoedd at ddeallusrwydd artiffisial. Mae rhywfaint o dystiolaeth rhanddeiliaid hefyd yn dangos bod rôl cynnull a chasglu tystiolaeth Ofcom yn helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion sy’n ymwneud â deallusrwydd artiffisial mewn cysylltiad ag llythrennedd yn y cyfryngau, gan symud syniadau y tu hwnt i’r traddodiadol sef “adnabod cynnwys ffug”.

Dechreuodd dwy raglen bartneriaeth newydd gyda’r potensial ar gyfer gweithgarwch graddadwy yn rhan olaf cyfnod yr adolygiad canol tymor: Cymuned o Gorfforaethau (sy’n gweithio ar gynllun gweithredu ar y cyd sy’n cael ei sbarduno gan gwmnïau sy’n cymryd rhan ar draws amrywiaeth eang o sectorau busnes) a gweithgarwch gyda chlybiau pêl-droed yr Uwch Gynghrair i ddarparu cymorth llythrennedd yn y cyfryngau drwy rwydweithiau presennol yn y gymuned ac ar lawr gwlad.

Mae’n rhy gynnar asesu cyfraniad tebygol y mentrau hyn at uchelgeisiau strategol Ofcom, ond mae brwdfrydedd cychwynnol y cyfranogwyr yn dangos potensial y dull hwn.

> *‘Mae rhywbeth gwych am rym cynnull Ofcom wrth geisio dod â’r holl ymdrech honno at y bwrdd a gofyn y cwestiwn, ‘A allem ni gyflawni mwy pe baem yn gwneud hyn gyda’n gilydd [ac] yn cytuno ar beth oedd y blaenoriaethau yn ein barn ni?’*
> **Rhanddeiliad busnes**

**Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach**
**Cadw i fyny â datblygiadau:** Er mwyn diogelu ei waith at y dyfodol cyn belled ag y bo modd, a darparu cyfeiriad strategol, mae’r gwerthusiad hwn yn argymell y dylai Ofcom barhau i ganolbwyntio ar ddarparu canllawiau a modelau sy’n seiliedig ar egwyddorion, a gwybodaeth ar lefel systemau, er mwyn i eraill eu mabwysiadu a’u haddasu i amgylchiadau lleol.

# 5. Casgliadau ac argymhellion

*O ran gwerthuso prosesau, sy'n delio â gweithredu, mae'r dystiolaeth ganol tymor yn canfod bod y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau ar y trywydd iawn yn gyffredinol gyda pherfformiad cryf mewn meysydd allweddol fel datblygu tystiolaeth a chynnull sectorau*

Mae barn rhanddeiliaid am waith Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae'r rhaglen llythrennedd yn y cyfryngau wedi bod yn ymateb i ddatblygiadau allanol a chyfleoedd newydd. Mae hyn yn cynnwys model comisiynu hyblyg sy'n gallu diwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Mae dyluniad strategol y rhaglen yn gweithio'n dda yn gyffredinol, gyda thystiolaeth bod gweithgareddau a ffrydiau gwaith unigol yn ategu ei gilydd, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer croesffrwythloni i helpu i gynyddu'r effaith. Er enghraifft, darparodd gwaith seiliedig ar leoedd yn y flwyddyn gyntaf yn nwyrain Birmingham astudiaeth achos o waith mewn partneriaeth â darparwyr addysg a oedd yn llywio syniadau ynghylch ymdrechion i gryfhau perthnasoedd ag awdurdodau addysg a meithrin partneriaethau (ee gydag Ymddiriedolaethau Aml-academi), gan lywio prosiectau addysg eraill.

Mae heriau gweithredu cynhenid mewn unrhyw raglen â sawl ffrwd waith sy'n cyfuno gwaith a gomisiynir, gweithgarwch partneriaeth a chyflawni uniongyrchol, a chanfu gwerthusiad o'r broses fod Ofcom wedi lliniaru'r rhain i raddau helaeth drwy weithdrefnau rheoli risg sydd wedi hen ennill eu plwyf.

*O ran gwerthuso effaith, mae Ofcom yn gwneud cynnydd cyson yn gyffredinol at gyflawni ei ganlyniadau strategol erbyn diwedd y tymor tair blynedd. Yn bwysig, mae'r rhan fwyaf o weithgarwch yn dal i fynd rhagddo, ac nid yw'r holl ganlyniadau i'w gweld yn llawn eto*

*Mae tystiolaeth o gyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos bod sefyllfa Ofcom fel corff rheoleiddio yn ffactor pwysig o ran disgwyliadau ynghylch ei rôl llythrennedd yn y cyfryngau*

Mae rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y swyddogaeth reoleiddio annibynnol yn galluogi (yn sail i rôl cynnull Ofcom fel brocer gonest gyda dylanwad) ac yn cyfyngu (mae ganddo gysylltiadau sy'n ei rwymo'n gyfreithiol â'r gwasanaethau mae'n eu rheoleiddio).

*Yn olaf, mae'r dystiolaeth ar y pwynt canol tymor hwn yn cyflwyno hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau fel ymdrech ar y cyd, gydag Ofcom yn chwarae rhan bwysig ymysg amrywiaeth o ffactorau dylanwadol eraill gan gynnwys datblygu polisi cyhoeddus ac enghreifftiau o gyflawni uniongyrchol a chydweithio ehangach gan randdeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.*

**Roedd wyth ymatebydd o bob deg i arolwg y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn cytuno:**

Mae gwaith Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud cyfraniad cymedrol i gryf at ei waith ymchwil neu weithgaredd llythrennedd yn y cyfryngau ei hun

**84%** **(37/44)**

**Roedd saith ymatebydd o bob deg i arolwg y Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn cytuno:**

Mae gwaith Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud cyfraniad cymedrol i gryf at hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU

**67%** **(34/51)**

*Mae'r gwerthusiad hwn yn argymell bod Ofcom yn ystyried y camau canlynol yn y tymor sy'n weddill:*

**1. Mireinio a datblygiadau pellach:** Adolygu'r opsiynau a amlinellir yn adrannau 'Beth y gellid ei barhau, ei fireinio neu ei ddatblygu ymhellach' penodau'r ffrwd waith a phenderfynu pa rai sydd â theilyngdod ac y gellir eu mabwysiadu dros weddill cyfnod y strategaeth ac a allai gyfrannu at waith cynllunio'r strategaeth nesaf.

**2. Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth werthuso:** Adolygu'r cynllun casglu data ar gyfer y strategaeth tair blynedd, gan fynd i'r afael â bylchau neu ddiffygion yn y dystiolaeth a nodwyd gan y gwerthusiad canol tymor, gan sicrhau bod y fframwaith gwerthuso'n parhau i ddarparu sail gadarn ar gyfer gwerthuso effaith yn y dyfodol.

**3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfrannu at waith Ofcom**: Roedd safbwyntiau cymysg ymysg rhanddeiliaid ynghylch lefel y gonestrwydd ynghylch trafodaethau Ofcom, a chododd rhai hefyd y mater o 'flinder ymgynghori'. Mae effeithiolrwydd y strategaeth yn dibynnu ar barodrwydd a gallu rhanddeiliaid i ymgysylltu â gwaith Ofcom a chyfrannu ato. I gefnogi hyn, gallai Ofcom ystyried ffyrdd o barhau i fodelu arferion da drwy'r canlynol:

- tryloywder ynghylch ei ddysgu ei hun
- lleihau baich ymarferion ymgynghori cyhoeddus (nid yw amseriad nac amlder y rhain bob amser dan reolaeth Ofcom), yn enwedig cynnwys sefydliadau llai y mae'n gobeithio ymgysylltu â nhw (gan ddefnyddio dull tebyg i'r ymgynghoriad ar y Datganiad o Argymhellion)
- a thrwy fynd ati i adrodd yn ôl ar sut mae cyfraniadau rhanddeiliaid yn helpu i siapio ei strategaeth, ei ganllawiau a'i waith comisiynu yn y dyfodol, o fewn cwmpas dyletswyddau Ofcom a nodir yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (2023).

O ran rhanddeiliaid, mae'n hollbwysig eu bod yn ymgysylltu ag ymchwil Ofcom, yn cymryd rhan yn y gwaith o werthuso'r strategaeth ac yn rhannu tystiolaeth gredadwy o'r hyn sy'n gweithio yn eu hymarfer eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu dysgu, data a gwybodaeth, a bod yn agored am heriau yn ogystal â llwyddiannau, i gryfhau cyd-ddealltwriaeth. Byddai'r dull hwn yn atgyfnerthu llythrennedd yn y cyfryngau fel ymdrech wirioneddol ar y cyd, yn cryfhau ansawdd a dyfnder y dystiolaeth werthuso sydd ar gael ar ddiwedd cyfnod y strategaeth, ac yn cefnogi datblygiad strategol mwy gwybodus y tu hwnt i 2027.

**4. Amodau llwyddo:** Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yn rhaid cael sawl amod er mwyn i'r strategaeth weithio yn ôl y bwriad. Dim ond ar rai o'r ffactorau hyn y gall Ofcom effeithio'n uniongyrchol, ond dylai'r amodau hyn fod yn flaenoriaeth mewn unrhyw werthusiad terfynol sy'n profi rhesymeg sylfaenol y strategaeth:

- Mae tystiolaeth ymchwil yn hawdd ei chanfod, yn hygyrch ac mae'n ymarferol ei defnyddio i lywio polisi ac ymarfer
- Mae dulliau gwerthuso yn ddigon da i ddangos newid credadwy, neu fel arall mae'r ddolen ddysgu'n gwanhau
- Mae platfformau a darlledwyr yn fodlon ac yn gallu ymgysylltu â gwaith Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau a mabwysiadu arferion gorau (gan gynnwys yr argymhellion ar lythrennedd yn y cyfryngau)
- Mae'r sianeli cywir yn cael eu dewis i gyrraedd cynulleidfaoedd targed, ac mae'r negeseuon/ymyriadau yn ddigon perthnasol i newid ymddygiad
- Mae gan bartneriaid y capasiti a'r gallu, ac ymddiriedaeth y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, i ddarparu ymyriadau'n effeithiol
- Mae cydgysylltiad ar draws sectorau gan fod y strategaeth yn dweud bod llwyddiant yn gofyn am ymdrech gydgysylltiedig gan lawer o randdeiliaid
- Mae cymysgedd o gyrhaeddiad eang, dyfnder wedi'i dargedu a newid ecosystem yn gallu sicrhau effaith ar raddfa fawr.

BIGGER PICTURE RESEARCH